**COFNODION LGH-13-02(mins)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 16 HYDREF 2002**

**Amser: 09.30 - 12.20**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Swyddogion*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Yr Adran Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant |
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Mike Chown | Cyllid Llywodraeth Leol |
| Rob Hay | Cyllid Llywodraeth Leol |
| Joanna Jordan | Gostwng Troseddu |
| Chris Hobday | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| David Fletcher | Llywodraeth Leol |
| Richard Shearer | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Yr Arolygydd Tony Rees | Heddlu De Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**9.30am hyd 9.35am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.
2. Dywedodd y Cadeirydd bod y Cynulliad yn dechrau ar ei flwyddyn olaf, gan arwain at yr etholiadau ym mis Mai, ac y gall y Pwyllgor a'r Cynulliad fod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn. Roedd llawer eto i'w wneud, fodd bynnag, yn arbennig ym meysydd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, gweithredu'r strategaethau ar ddigartrefedd a thlodi tanwydd, diogelwch tân, goblygiadau'r Mesur Llywodraeth Leol drafft ar gyfer Cymru a datblygiad parhaus Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.
3. Ychwanegodd y Cadeirydd bod adroddiad y Pwyllgor ar ei adolygiad polisi o adfywio cymunedol wedi'i gyhoeddi a bod copïau wedi'u hanfon at holl Aelodau'r Cynulliad yn ogystal â'r cyrff a gyfrannodd at adolygiad y Pwyllgor. Ceir dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref. Diolchodd i bawb a gyfrannodd yn

ogystal â’r Cynghorydd Arbenigol, Yr Athro Dave Adamson.

1.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac mae ei wraig yn cael ei chyflogi gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (eitem 2)
- William Graham, Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd
- Pauline Jarman, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dai Lloyd, Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe
- Janet Ryder, Aelod o Gyngor Tref Rhuthun
- Peter Law, Llywydd Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Lleol Cymru
- Gwenda Thomas, mae ei mab yn ddyn tân (eitem 2)

**9.35am hyd 10.10am**

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**LGH-13-02(p.1) Atodiad 1, 2 3**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad a thynnodd sylw'r Aelodau'n benodol at yr adran ar Blant sy'n Derbyn Gofal. Ychwanegodd nad oedd yr Atodiad cysylltiedig yn gyflawn gan nad oedd pob Awdurdod Lleol wedi ymateb. Roedd yn bwriadu ceisio cael y wybodaeth gan yr Awdurdodau Lleol hynny nad oeddynt wedi ymateb a rhoi’r wybodaeth honno i'r Pwyllgor yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf. Gofynnodd hefyd a oedd y Pwyllgor yn dymuno gwahodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar y gorgyffwrdd rhwng y ddau bortffolio.
2. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn cael clywed sut y mae awdurdodau lleol unigol yn gweithredu argymhellion Waterhouse ym mhob rhan o Gymru. Gofynnodd hefyd a oedd yna ddull cyffredin o weithredu neu a oedd yr Awdurdodau wedi penderfynu gweithredu'r argymhellion yn unigol. Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo nad oedd rhai Awdurdodau wedi rhoi digon o sylw i fod yn rhieni corfforaethol a holodd a oedd yn rhaid i aelodau ddod yn destun ymchwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Trafododd yr Aelodau'r mater

hwn a chytunwyd eu bod yn dymuno derbyn adroddiad pellach yn y Pwyllgor. Roedd yr Aelodau hefyd yn dymuno mynegi eu gwerthfawrogiad i'r staff sy'n gweithio yn y maes anodd hwn.

3. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog y gallai fod yn briodol i lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Wasanaethau Cymdeithasol fynychu'r Pwyllgor ynghyd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn trafod goblygiadau'r mater hwn ac i edrych ar hyrwyddo arferion da yn y maes.
4. Gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol ar yr adroddiad ysgrifenedig:

- Croesawyd y diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo).
- Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld natur (nid manylion) y cwynion ynghylch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn darganfod a oedd unrhyw dueddiadau yn dod i'r amlwg.
- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o fanylion ynghylch y Rhaglen Grant Reoli Tai Cymdeithasol.
- Croesawodd yr Aelodau'r cynllun i ddarparu rampiau i bobl anabl mewn gorsafoedd pleidleisio ond holwyd a ellid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r cofrestrau treigl. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd unrhyw ystadegau ar gael ynghylch y tueddiadau o ran prif swyddi clercod pleidleisio.
- Llongyfarchodd yr Aelodau Peter Law ar ei gyfraniad tuag at sefydlu "Un Llais" Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru Gyfan.
- Croesawodd yr Aelodau'r cynllun ar gyfer Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post a gofynnwyd am adroddiadau diweddaru cyson.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y canllawiau diwygiedig ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn adlewyrchu adolygiad y Pwyllgor o Adfywio Cymunedol.
- Ar sail pa dystiolaeth yr oedd y Gweinidog wedi dod i'w phenderfyniad ar ddeisebau ar gyfer meiri etholedig?
- A ellir cyhoeddi rhif ffôn desg gymorth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf?

- All y Gweinidog amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod?

1. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Byddai'n rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r math o gwynion a gafwyd ynghylch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Byddai'n adrodd ar yr "arferion da" sydd i'w gweld o dan y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yn y cyfarfod nesaf.
- Roedd yn rhannu pryderon yr aelodau ynghylch hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ac ychwanegodd ei bod yn benderfynol o wneud ei gorau i gynorthwyo gyda'r mater hwn. Dywedodd y byddai'n edrych i weld a oedd unrhyw dueddiadau yn amlygu eu hunain o

ran prif swyddi clercod pleidleisio. Ychwanegodd y byddai'n gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r cofrestrau treigl.

- Dywedodd y bu hir ddisgwyl am sefydlu "Un Llais", Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru Gyfan ac y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am ffrwyth ei waith ymchwil.
- Cytunodd i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â Swyddfa'r Post yn y cyfarfod nesaf.
- Cadarnhaodd y byddai'r canllawiau diwygiedig ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn adlewyrchu argymhellion adroddiad y Pwyllgor.
- Dywedodd ei bod wedi gwneud ei phenderfyniad ar ddeisebau ar gyfer meiri etholedig ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law.

- Cytunodd i hysbysu holl Aelodau'r Cynulliad beth yw rhif ffôn desg gymorth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Cytunodd i anfon copi o Reoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig at William Graham, ynghyd ag eglurhad ohonynt.

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am adroddiad cynhwysfawr ac atgoffodd yr Aelodau y dylent hysbysu'r Clerc os oeddent yn dymuno trafod unrhyw is-ddeddfwriaeth.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddarparu crynodeb i’r Aelodau o’r math o gwynion a gafwyd ynghylch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Y Gweinidog i adrodd ar yr "arferion da" sydd i'w gweld o dan y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yn y cyfarfod nesaf.
- Y Gweinidog i edrych i weld a oes unrhyw dueddiadau yn dod i’r amlwg o ran prif swyddi clercod pleidleisio.

- Y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn iddynt roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r cofrestrau treigl.

- Cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am waith ymchwil "Un Llais", Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Cymru.

- Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar gefnogi Swyddfeydd y Post mewn cymunedau difreintiedig/anghysbell yn y cyfarfod nesaf.

- Y swyddogion i hysbysu holl Aelodau'r Cynulliad beth yw rhif ffôn desg gymorth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Cytunodd y Gweinidog i anfon copi o Reoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig at William Graham AC, ynghyd ag eglurhad ohonynt.

**10.10am hyd 11.00am**

**Eitem 3: Ystyried y Gyllideb Ddrafft**

**LGH-13-02(p.2) Atodiad 1, 2**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei chyllideb ddrafft gan amlinellu'r effeithiau ar wasanaethau awdurdodau lleol. Dywedodd nad oedd wedi bod yn bosibl nodi'r manylion cyn y ddadl ar y gyllideb yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref ond gofynnodd i'r Pwyllgor roi eu sylwadau ar yr ystyriaethau a nodwyd yn Atodiad 1 i'w phapur.
2. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am gyflwyno ei phapur a dywedodd ei bod yn credu ei bod yn gyllideb ardderchog ar gyfer awdurdodau lleol.
3. Croesawodd yr Aelodau'r gyllideb a chodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaeth fanwl:

- Sut y byddai'r trafodaethau cyfredol ynghylch tâl, o ran diffoddwyr tân yn arbennig, yn effeithio ar gyllidebau?
- Allai data newydd y cyfrifiad gael effaith fawr ar rai awdurdodau lleol?
- Croesawodd yr Aelodau sefydlu'r gweithgor i ystyried darparu mynediad am ddim i blant a phobl ifanc i ganolfannau hamdden awdurdodau lleol yn ystod gwyliau’r ysgol, ond gofynnwyd am fwy o fanylion ynghylch y costau a'r telerau ac amodau.
- A fyddai'r Gweinidog yn ystyried dyrannu mwy o gyllid ar gyfer y Cynllun Cymorth Prynu?
- Gofynnodd yr Aelodau i’r Gweinidog roi manylion y gwariant ar y cynlluniau grant unigol.
- Mynegwyd pryder ynghylch y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol, a oedd wedi dioddef

oherwydd diffyg cyllid ers blynyddoedd lawer. O gofion am y pwysau ychwanegol ym maes gwasanaethau plant, gofynnwyd a fyddai'r Gweinidog yn cynyddu'r gyllideb arbennig honno.
- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth ynghylch maes cyffuriau ac, yn arbennig, a oedd unrhyw ystadegau ar gael ynghylch yr arian a wariwyd hyd yn hyn.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai hi ddyrannu arian yn benodol i leddfu'r broblem o gamddefnyddio sylweddau yng Ngorllewin y Rhyl.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i ddyrannu cyllid ychwanegol i Gronfa Adfywio'r Meysydd Glo.

- All neuaddau eglwysi/capeli sydd mewn wardiau nad ydynt yn dod o fewn ffiniau rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ond sy'n cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol sy'n rhan o'r rhaglen, fanteisio ar y rheolau mwy hyblyg ar gyfer y cynllun?

1. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Nid oedd tâl diffoddwyr tân wedi'i ddatganoli a mater i Awdurdodau Lleol oedd hyn.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod hi a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno y byddai'r setliad amcanol yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach nag arfer ar ddiwedd mis Tachwedd. Bydd hynny'n caniatáu mwy o amser i ystyried effeithiau data newydd y cyfrifiad.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn aros i weld adroddiad y gweithgor ar y cynllun mynediad i gyfleusterau hamdden.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn adolygu'r modd y mae'r Cynllun Cymorth Prynu yn gweithredu ar hyn o bryd ac y byddai'n ystyried ei ddiwygio unwaith y byddai'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion y gwariant ar y rhaglenni grant unigol.
- Dywedodd y Gweinidog y bydd y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd nesaf er mwyn unioni'r diffyg buddsoddiad hanesyddol.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Tasglu sy'n edrych ar ddarparu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn adrodd ar ei ganfyddiadau yn fuan. Ychwanegodd y byddai hyn yn caniatáu iddi ystyried y gofynion cyllido.
- Cytunodd y Gweinidog i ystyried darparu arian ychwanegol i fynd i'r afael â'r broblem o gamddefnyddio sylweddau yng Ngorllewin y Rhyl.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ond y byddai'n adolygu'r lefelau cyllido yn flynyddol. Ychwanegodd ei bod yn barod i ystyried unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor ynghylch ariannu'r Ymddiriedolaeth i'r dyfodol.

- Dywedodd y Gweinidog bod nifer o adeiladau crefyddol yn cael eu defnyddio fel canolfannau cymunedol ac nad oeddent wedi gallu derbyn cyllid gan y Cynulliad yn y gorffennol. Dywedodd y byddai'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

newydd yn cynnig y cyllid hwn ac y byddai ar gael ym mhob rhan o Gymru.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i adolygu'r modd y mae'r Cynllun Cymorth Prynu yn gweithredu ac i ystyried ei ddiwygio unwaith y bydd y canfyddiadau wedi'u cyhoeddi.
- Y Gweinidog i ddarparu manylion y gwariant ar y rhaglenni grant unigol.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog mewn ymateb i'r gyllideb arfaethedig.

**<u>11.00am hyd 11.15am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl o 15 munud.

**<u>11.15am hyd 11.20am</u>**

**Eitem 4: Y Diweddaraf ar y Mesur Llywodraeth Leol**

**LGH-13-02(p.3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur gan ychwanegu bod trafodaethau yn parhau i fynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion sy'n ymwneud â Chymru. Dywedodd na fyddai'r canlyniad terfynol yn wybyddus tan ddiwedd mis Hydref. Ychwanegodd na fyddai'n ddoeth ceisio rhagweld beth fyddai'r penderfyniadau hynny ond pwysleisiodd ei bod hi a'i swyddogion yn cadw golwg ddyddiol ar ddatblygiadau. Dywedodd bod yr holl gynrychiolaethau gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Pwyllgor wedi'u hanfon ymlaen yn unol â'r cais.

   4.2 Roedd yr Aelodau yn deall sefyllfa'r Gweinidog a chytunwyd y byddai'n ddoeth disgwyl nes bod mwy o wybodaeth ar gael.

**Pwynt Gweithredu**

- **Y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am ddatblygiadau yn ôl yr angen.**

**<u>11.20am hyd 12.00pm</u>**

**Eitem 5: Cyflwyniad ar y Prosiect Alcohol a Throseddau Stryd wedi'i Dargedu**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr Arolygydd Tony Rees o Heddlu De Cymru a oedd wedi derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad ar y Prosiect Alcohol a Throseddau Stryd wedi'i Dargedu (TASC).

5.2 Prosiect plismona wedi'i dargedu o dan arweiniad y Swyddfa Gartref yw TASC a bydd yn rhedeg am dair blynedd. Heddlu De Cymru wnaeth arwain y ffordd gyda'r prosiect hwn ac mae eisoes yn cael ei efelychu mewn ardaloedd eraill. Mae heddluoedd o rannau eraill o’r DU yn parhau i ymweld â thîm y prosiect. Mae'r prosiect wedi'i asesu a'i werthuso ac mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref. Caiff ei gyhoeddi’n fuan. Amgaeir copi o gyflwyniad yr Arolygydd Rees fel atodiad i'r cofnodion.

3. Dywedodd y Gweinidog fod y prosiect wedi gwneud argraff dda arni. Byddai'n parhau i ddwyn pwysau ar y Swyddfa Gartref i barhau i gyllido’r prosiect ac roedd yn gobeithio derbyn ymateb ffafriol. Ychwanegodd y byddai'n hoffi gweld y cynllun yn cael ei ymestyn i rannau poblog eraill o Gymru. Roedd yn teimlo bod nifer o faterion difrifol yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a mynegodd ei phryder ynghylch y ffordd y mae ymgyrchoedd marchnata alcohol yn cael eu hanelu'n arbennig at bobl ifanc, hawdd dylanwadu arnynt. Canmolodd y gwaith rhagorol y mae Heddlu De Cymru wedi'i wneud yn y maes hwn.
4. Roedd yr Aelodau yn unfryd yn eu canmoliaeth ar gyfer y prosiect hwn a'r gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud. Codwyd y pwyntiau canlynol ganddynt yn y drafodaeth:

- Pa bwysau y gellir ei ddwyn ar safleoedd trwyddedig i ddefnyddio gwydrau yfed na ellir eu torri?
- Roedd yr Aelodau’n bryderus ynghylch nosweithiau hyrwyddo ac "oriau llawn" a oedd yn

targedu pobl ifanc, a theimlwyd bod digwyddiadau o'r fath yn cyfleu neges

anghywir ynghylch alcohol.

3. Mewn ymateb dywedodd yr Arolygydd Rees:

- Roedd y prosiect wedi edrych ar ddefnyddio gwydrau yfed na ellir eu torri. Mae gwydr yn rhad ac mae plastig yn ddrud. Hefyd, gall gwydrau plastig falu yn ddrylliau miniog. Dywedodd bod un cwmni yn cynhyrchu gwydrau yfed na ellir eu torri ond bod y rhain yn ddrud. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed bod safleoedd trwyddedig yn defnyddio gwydrau plastig pan gynhelir digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd. Ychwanegodd bod mwy a mwy o bobl ifanc bellach yn yfed o boteli gwydr a bod y prosiect wedi edrych ar ddefnyddio poteli plastig yn lle rhai gwydr.

- Cydnabyddodd yr Arolygydd Rees bryderon yr Aelodau ynghylch y ffordd y mae ymgyrchoedd marchnata'r bragwyr mawr a'r tafarnau cadwyn yn gwneud i alcohol edrych yn atyniadol.

**Pwynt Gweithredu**

- **Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd cwmnïau bragu mawr i'r Pwyllgor**

**<u>12.00pm hyd 12.10pm</u>**

**Eitem 6: Yr Adolygiad Polisi ar Feithrin Gallu**

**LGH-13-02(p.4) Atodiad 1, 2**

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur hwn a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynllun ar gyfer yr adolygiad polisi. Dywedodd hefyd fod diwrnod ychwanegol wedi'i gynnwys yn y cynllun. Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y diwrnod ychwanegol a chymeradwywyd y cynllun.

2. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi awgrymu, y tymor diwethaf, cynnal sesiwn ffurfiol yn y Gogledd ond bod hynny'n anoddach bellach gan fod y Cyfarfod Llawn wedi'i symud i ddydd Mercher. Pe bai'r Pwyllgor yn fodlon, gellid defnyddio'r diwrnod ychwanegol ar 7 Tachwedd i gynnal sesiwn casglu tystiolaeth ffurfiol yn y Gogledd a byddai hefyd yn gyfle i'r Pwyllgor ymweld ag un o'r safleoedd cyfeirio a awgrymwyd gan yr Athro Adamson o Brifysgol Bangor. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwnnw a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth wneud y trefniadau.
3. Croesawodd yr Aelodau yr ymweliad posibl â'r Gogledd ac awgrymwyd ymweld â Tai Eryri a Ty Pwt, Llangefni.
4. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai, gyda chydsyniad y Pwyllgor, anfon copi o'r adroddiad at y Gweinidog Diwylliant iddi hi ei ystyried fel rhan o'i hymgynghoriad cyfredol ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

**Pwynt Gweithredu**

**Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud trefniadau i gynnal sesiwn casglu tystiolaeth yn y Gogledd.**

**<u>12.10pm hyd 12.20pm</u>**

**Eitem 7: Ystyried y Flaenraglen Waith**

**LGH-13-02(p.5) Atodiad**

7.1 Cyflwynodd y Clerc y papur hwn a gofynnodd am sylwadau'r Pwyllgor ar y flaenraglen arfaethedig ar gyfer tymor yr hydref. Ychwanegodd bod y rhaglen yn ceisio adlewyrchu blaenoriaethau'r Pwyllgor sef camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol, amrywiaeth, materion tai a'r adolygiad polisi. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi derbyn gwahoddiad agored i ymddangos gerbron y Pwyllgor ac ymddengys eu bod am dderbyn y gwahoddiad. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys amrywiaeth o bapurau a chyflwyniadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff allanol.

7.2 Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod argymhellion Waterhouse ar blant sy'n derbyn gofal ac y gellid gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu'r un cyfarfod. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym hwnnw a chymeradwywyd y flaenraglen waith.

**Pwyntiau Gweithredu**

- **Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod ar 13 Tachwedd.**
- **Yr Ysgrifenyddiaeth i awgrymu bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn canolbwyntio ar argymhellion Waterhouse ar wasanaethau plant yn eu cyflwyniad i'r Pwyllgor ar 13 Tachwedd.**

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

**LGH-12-02(mins)**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol a nodwyd y camau a gymerwyd ar y pwyntiau gweithredu.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Hydref 2002